Heather Jones (Siaradwr Cymraeg)

From: clercfelinheli@aol.com
Sent: 03 November 2015 14:44
To: Heather Jones (Siaradwr Cymraeg)
Subject: Fwd: Ceisiadau Ol Weithredol a materion hyfforddiant
Attachments: Cyfarfod Clercod - Cyflwyniad i'r broses Cynllunio - Hydref 2013.pdf; HAWL I SIARAD YN PWYLLGOR CYNLLUNIO GWYNEDD.PDF; TREFNIANT Y PWYLLGOR CYNLLUNIO.PDF

-----Original Message-----
From: Cynllunio/Planning <Cynllunio@gwynedd.gov.uk>
To: clercfelinheli <clercfelinheli@aol.com>
Sent: Wed, 21 Oct 2015 9:14
Subject: FW: Ceisiadau Ol Weithredol a materion hyfforddiant

Annwyl Ms Jones,

Parthed: Ceisiadau ôl-weithredol a materion hyfforddiant

Diolch am eich e-bost o'r 12 Hydref 2015 a gyfeiriwyd at Mr Dafydd Wyn Williams , Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) ynglŷn â'r uchod. Mae Mr Williams wedi gofyn i mi ymateb i'r materion rydych yn eu codi'n uniongyrchol fel a ganlyn.

Ceisiadau Ôl-weithredol
Rwyf yn gwerthfawrogi'r pryderon sydd gan eich Cyngor Cymuned ynglŷn â cheisiadau ôl-weithredol, ond rhaid cofio hefyd fod ceisiadau o'r fath fel arfer yn cael ei chyflwyno yn sgil archwiliad gan Swyddogion Gorfodaeth Cynllunio'r Gwasanaeth yma. Rwyf yn deall y pryderon, ond ymgais i geisio cydymffurfio gyda rheoliadau cynllunio yw pwrpas cyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol yn y pen draw, ac mae'n rhaid i ni ddelio gyda cheisiadau o'r fath yn unol â Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Nid yw'r ffaith fod gwaith wedi ei gychwyn, yn ôl y ddeddfwriaeth gyfredol , yn newid y ffordd rydym yn delio gyda chais cynllunio o ran y broses o benderfynu ceisiadau, ond wrth gwrs mae mwy o risg i 'r ymgeisydd os gwrthodir cais ôl-weithredol.

Hyfforddiant
Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol fod y Cyngor wedi trefnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned dros y blynyddoedd, gyda'r sesiwn olaf a drefnwyd gan y Cyngor wedi ei gynnal yn ystod Hydref 2013. Dim ond tua 10 oedd yn gallu mynychu'r sesiwn ar ran yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ar y pryd, ond yn dilyn y sesiwn cylchredwyd copïau o'r cyflwyniadau i glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned perthnasol. Atodaf gopïau o'r cyflwyniadau i chi eto er gwybodaeth.

Hefyd, yn ddiweddar cefnogodd y Cyngor sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd gyda'r nos ar y 23 Medi 2015 yng Nghaernarfon, oedd yn cael ei arwain gan Gymorth Cynllunio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, oedd yn benodol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Mynychwyd y sesiwn hyfforddiant yma gan tua 10 oedd yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â 3 Rheolwr (yn cynnwys fi) o'r Gwasanaeth yma, gyda'r hyfforddiant yn cael ei arwain gan gynllunydd o Gymorth Cynllunio Cymru. Atodaf linc i chi isod ar gyfer yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr hyfforddiant yma:

Cymorth Cynllunio Cymru

Planning Aid Wales

Hoffwn bwysleisio ein bod fel Cyngor yn hynod gefnogol o ran hwyluso sesiynau hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn y maes cynllunio, gan fod y mewnbwn a roddir gan Gynghorau Tref a Chymuned i'r broses gynllunio'n bwysig iawn. Rwyf yn gwerthfawrogi'r gwahoddiad i Swyddog o'r Gwasanaeth fynychu cyfarfod o'ch Cyngor Cymuned i roi hyfforddiant, ond y gwir amdani yw na fuasai'n ymarferol o ran amser nac adnoddau i ni fynychu cyfarfodydd pob Cyngor Tref a Chymuned i roi hyfforddiant. Rwyf yn deall nad yw efallai'n gyfleus bob tro i gynrychiolaeth o bob Cyngor Tref a Chymuned fynychu sesiynau sydd yn cael ei threfnu gennym yn sirol ac rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer ceisio goresgyn hynny.

O safbwynt trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r dyfodol, rydym yn bwriadu trefnu sesiwn (neu sesiynau) ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned o fewn y 12 mis nesaf ac mae'n debyg y byddwn yn cael trafodaethau gydag Un Sain Cymru ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer hwyluso hyn. Rwyf hefyd yn ymwybodol fod Cymorth Cynllunio Cymru'n bwriadu cynnal sesiwn hyfforddiant arall ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned mewn tua 6 mis, a byddwn fel Cyngor yn cefnogi'r hyfforddiant yna hefyd.

Gobeithio fod hyn yn egluro'r sefyllfa o safbwynt hwyluso trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r dyfodol, ond os oes unrhyw fater cynllunio penodol rydych angen arweiniad arno yn y cyfamser, yna mae croeso i chi gysylltu gyda'r Swyddog Achos perthnasol.

Yn gywir,

Gareth Jones

Uwch Reolwr, Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (Dros Dro)

From: clercfelinheli@aol.com [mailto:clercfelinheli@aol.com]
Sent: 12 October 2015 22:35
To: Cynllunio/Planning
Subject: Ceisiadau Ol Weithredol

Er Sylw Dafydd Wyn Williams,

Mae nifer o geisiadau ol weithredol wedi dod i sylw'r Cyngor yn ddiweddar a mae'r aelodau yn bryderus ynglyn a'r ymarferiad yma.

Dymuna'r Cyngor wahodd Swyddog Cynllunio i Gyfarfod Mis Tachwedd y Cyngor er mwyn derbyn gwybodaeth gyffredinol ynglyn a materion cynllunio, yn enwedig rol y Cyngor Cymuned yn y broses ceisiadau a ceisiadau ol weithredol.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar yr ail nos Fawrth yn y mis am 7 yn yr hwyr yn y Neuadd Goffa.

Edrychaf ymlaen i dderbyn cydnabyddiaeth pwy fydd yn mynychu.

yn gywir,

Heather Jones
Clerc y Cyngor.

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu â'r anfonwr ar unwaith.
Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud â busnes swyddogol y corff sy'n anfon yr e-bost yn bersonol i'r awdur.

This email and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact the sender at once.

Any content that is not pertinent to the official business of the organisation is personal to the author.

Arbedwch bapur, ynni ac arian - Peidiwch argraffu'r neges yma oni bai ei bod yn hollol angenrheidiol.
Save paper, energy and money - Do not print this message unless it is absolutely necessary.